

Prosiectau ERDF Blaenoriaeth 2 a Ariennir yn PRC: Cystadleurwydd BBaCh



Cronfa Busnes Cymru—Sefydlu ac Ehangu BBaCh

Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â methiant y farchnad o ran darparu cyllid i BBaChau gyda chronfa fuddsoddi sy'n buddsoddi mewn BBaChau, gan gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer BBaChau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Cronfa Busnes Cymru—Arloesi

- Mae Cronfa Busnes Cymru yn darparu cyllid cyfalaf risg (ecwiti) ar gyfer creu a thwf busnesau ymchwil-ddwys ac arloesol, fel cwmnïau deillio.
- Mae'r prosiect yn buddsoddi mewn BBaChau ar draws nifer o'r Cyfleoedd Economaidd Thematig fel Gweithgynhyrchu Uwch, Gwyddorau Bywyd ac Iechyd yn arbennig.

Busnes Cymdeithasol Cymru

- Mae'r prosiect hwn yn darparu gwasanaeth cyffredinol i gefnogi twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr.
- Ei nod yw datblygu'r sector busnes cymdeithasol a chreu swyddi newydd o ansawdd da.
- Mae'n cefnogi datblygiad consortia; meithrin gallu i fanteisio ar gyfleoedd caffael; ac yn darparu cymorth ar gyfer olyniaeth busnes a pherchnogaeth gweithwyr.

Amcanion ERDF P2

- Cynyddu argaeledd cyllid i BBaChau.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n sefydlu.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n manteisio ar rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh.
- Cynyddu twf BBaChau sydd â photensial.
- Cynyddu argaeledd cyllid ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, yn enwedig cyfalaf risg, ar gyfer BBaChau Cymru

Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol

- Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth ad-daladwy wedi'i deilwra ac arbenigol i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi eu twf.
- Mae'n cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n gallu dangos cyfleoedd twf clir i gynyddu eu hincwm masnachu, dod yn fwy cynaliadwy a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

Busnes Cymru—Cymorth Entrepreneuriaeth

- Mae'r prosiect hwn yn hyrwyddo mentergarwch a chefnogaeth i entrepreneuriaid a busnesau twf ifanc yng Nghymru er mwyn datblygu amgylchedd entrepreneuriaid a stoc gynaliadwy o fusnesau ifanc yng Nghymru.
- Mae'r prosiect yn targedu amgylchedd entrepreneuriaid gwell a chynnydd yn nifer y busnesau newydd cynaliadwy

Busnes Cymru—Cymorth i BBaChau

Mae'n cefnogi microfusnesau a BBaChau yng Nghymru i dyfu a ffynnu. Mae Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn darparu pecyn gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr wedi'i deilwra i alluogi creu swyddi, cyfoeth a thwf busnes yng Nghymru.

Manteisio ar Fand Eang Cyflym iawn i Fusnesau

- Nod y prosiect yw cynyddu elw economaidd seilwaith band eang cyflym iawn drwy gynyddu ei ddefnydd gan BBaChau.
- Gwneir hyn drwy gynyddu dealltwriaeth o'r dechnoleg a'i manteision; cynnydd mewn mabwysiadu band eang cyflym iawn gan BBaChau yng Nghymru; a manteisio cynyddol wrth i fwy o BBaChau ddefnyddio'r dechnoleg i wella eu busnesau.